# Cau Cronfau Sgiliau a Hyfforddiant

## Cwestiynau Cyffredin

### Pam mae'r Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant yn cau?

Rydym yn symleiddio ein dull i helpu cyflogwyr cofrestredig â'r lefi i gael cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant yn fwy effeithiol. I wneud hyn, rydym wedi adolygu'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd ac yn gwneud newidiadau.

Ar hyn o bryd, mae Rhwydweithiau Cyflogwyr (ENs) a'r Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant (S&T) ill dau yn cynnig cyllid ar gyfer mathau tebyg o hyfforddiant, ac rydym yn gwybod bod hyn yn gallu bod yn ddryslyd i gyflogwyr.

Wrth wrando ar adborth gan gyflogwyr, rydym yn symleiddio'r broses ac yn creu gwasanaeth mwy effeithlon, gan symud tuag at un llwybr. O 30 Medi 2025, bydd y Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant yn cau, a bydd Rhwydweithiau Cyflogwyr yn dod yn unig sianel ar gyfer datblygu busnesau ymhellach.

### Sut alla i gael cymorth gyda'm hanghenion hyfforddiant nawr?

Mae cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant ar gael drwy Rwydweithiau Cyflogwyr a thrwy Gynllun Grantiau CITB. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth ar ein gwefan am y llwybrau hyn neu siarad â'ch Ymgynghorydd lleol.

### A fydd cyllid Rhwydwaith Cyflogwyr (EN) yn cyfateb i'r cymorth 100% a oedd ar gael drwy'r Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant?

Mae cyllid EN yn cwmpasu hyd at 70% o gostau hyfforddiant. Er bod hyn yn is na'r cyllid a oedd ar gael drwy'r Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant, mae Rhwydweithiau Cyflogwyr yn cynnig gwerth ychwanegol i gyflogwyr. Maent yn lleihau'r baich gweinyddol drwy helpu cyflogwyr i nodi hyfforddiant a darparwyr addas, ac yn cefnogi'r broses trefnu. Mae cyflogwyr wedi dweud eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth ymarferol hwn yn fwy na derbyn cyllid llawn, gan ei fod yn arbed amser ac ymdrech.

### Alla i dal gyflwyno cais i'r Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant?

Mae'r gronfa yn parhau'n agored ac yn derbyn ceisiadau newydd (gan ymgeiswyr cymwys) tan 30 Medi 2025.

### A fyddaf yn dal i dderbyn fy nhaliad o'r Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant ymlaen llaw?

Bydd ceisiadau a gyflwynir ym mis Awst yn cael eu prosesu fel arfer, ac yn y rhan fwyaf o achosion bydd y cyllid yn cael ei ryddhau ymlaen llaw. O 01 Medi, bydd telerau talu'n newid i dalu ar ôl cwblhau'r gweithgaredd hyfforddi. Os nad yw talu ar ôl cwblhau'n addas i'ch amgylchiadau personol, dylech ddefnyddio Rhwydweithiau Cyflogwyr ar gyfer eich anghenion hyfforddiant.

**A fydd unrhyw newidiadau i gytundebau cyllid presennol y Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant?**

Na, bydd unrhyw gytundebau cyllid presennol yn cael eu parchu. Ni fydd yn bosibl cynyddu'r swm cyllid a gytunwyd eisoes, ond bydd estyniadau byrion y tu hwnt i'r cyfnod cyllido 12 mis gwreiddiol yn parhau i gael eu caniatáu os oes angen amser ychwanegol i gwblhau'r hyfforddiant a gyllidwyd.

**Alla i gau fy nghronfa Sgiliau a Hyfforddiant bresennol yn gynnar a gwneud cais eto cyn y dyddiad cau o 30 Medi?**

Ni fyddwn yn gallu cau cytundebau cyllid yn gynharach na'r cyfnod 12 mis a nodir yn eich e-bost cymeradwyo.

I fod yn gymwys ar gyfer ffenestr cyllido Awst 2025, rhaid eich bod wedi cael eich cymeradwyo diwethaf ym mis Awst 2024 neu'n gynharach, gan sicrhau bod o leiaf 12 mis wedi mynd heibio ers eich cais blaenorol.

I fod yn gymwys ar gyfer ffenestr cyllido Medi 2025, rhaid eich bod wedi cael eich cymeradwyo diwethaf ym mis Medi 2024 neu'n gynharach, gan sicrhau bwlch llawn o 12 mis ers eich cais diwethaf.

**Gyda phwy alla i gysylltu os oes angen help gyda'm cytundeb cyllid Sgiliau a Hyfforddiant presennol?**

Bydd y tîm cyllid yn parhau ar gael ac yn gweithio ar y gronfa i gefnogi gyda chwestiynau ac anghenion cwblhau.